

Adroddiad Prosiect Ymchwil (Marian Brosschot)

Enw'r prosiect: Addysgu siaradwyr Cymraeg am y ffordd oriau i gefnogi siaradwyr newydd.

Prif gwestiynau i'w hateb

- Be ydy'r ffordd orau i gefnogi pobl sy'n dysgu?
- Sut ydan ni'n arfogi siaradwyr Cymraeg efo'r wybodaeth yma?

1. Siarad efo pobl sy'n dysgu.

Daethpwyd o hyd i'r cysyniad o 'Foreigner Talk' (Schachter, 1983) sy'n cwmpasu mathau gwahanol o ffordd y mae siaradwyr yn cyfathrebu efo dysgwyr. Mae'n cynnwys y nodweddion canlynol:

- i. Arafu a gadael bylchau – Mae angen mwy o amser prosesu pan yn dysgu iaith felly mae bylchau rhwng geiriau a chwestiynau yn helpu.
- ii. Symleiddio – Defnyddio geirfa a strwythur syml. Osgoi idiomau.
- iii. Eglurder – Bod yn eglur o ran ynganu ac o ran cyflew neges.
- iv. Ailadrodd ac aralleirio – Ailddweud rhywbeth mewn ffordd wahanol yn hytrach na chyfieithu i'r Saesneg.
- v. Defnyddio ystumiau – Helpu'r dysgwyr i ddeall drwy fewnbwn dealladwy h.y. deall y neges o'r cyd-destun.
- vi. Gofyn am eglurhad – Cyfrifoldeb y gwrandawr (y siaradwr rhugl) i ddweud bod nhw ddim yn deall a gofyn i'r dysgwr ail-adrodd. Osgoi cywiro.
- vii. Bod yn amyneddgar

2. Enghreifftiau o wledydd eraill.


Daethpwyd o hyd i brosiectau ac ymgyrchoedd mewn gwledydd eraill yn Ewrop sydd wedi ymgymryd â'r pwnc yma sef Gwlad Belg (Iseldireg), Yr Iseldiroedd (Iseldireg) a Chatalwnia (Catalaneg). Isod manylir ar y technegau ddefnyddiwyd yn y gwledydd hyn.

- i) Bathodynau. Er fod bathodynau yn cael eu defnyddio yng Nghymru hefyd gan ddygwyr, mae'r geiriau ar y bathodynau yma (Gweler *Ffigur 1* isod) yn cario neges wahanol. Defnyddir y modd gorchmynnol yn y geiriau '*Speek Nederlands met mij*' ("Siaradwch Iseldireg efo fi") sy'n llawer cryfach a gweithredol o ran naws. Nid yw'n neges oddefol, mae'n gofyn am weithred.



Ffigur 1 - Bathodynnau 'Spreek Nederlands met mij' ("Siaradwch Iseldireg efo fi")

- ii) Y Cyfryngau (Gwlad Belg): Yng Ngwlad Belg recordiwyd rhaglenni byrion ar ffurf rhaglenni dogfen 5 munud yn dilyn dysgwyr yr iaith a siaradwr iaith gyntaf yn y gymuned ("arwr iaith") yn cyfarfod neu yn cydweithio. Mae'r *taalhelden*, yr arwyr iaith, yn gydweithwyr a phobl yn y gymuned sy'n gwirfoddoli eu hamser i sgwrsio efo pobl sy'n dysgu'r iaith. Mae'r clipiau yma nid yn unig yn codi ymwybyddiaeth o bresenoldeb dysgwyr yn ein cymunedau ond mae'n modelu sut i gyfathrebu â dysgwr.




Ffigur 2 - Rhaglenni dogfen 5 munud Taalhelden ("arwyr iaith") yng Ngwlad Belg

- iii) Y Cyfryngau (Catalwnia): Bu ymgyrch ar ffurf fideos a phosteri mawrion yng Nghatalwnia i dynnu sylw at y ffaith fod siaradwyr iaith gyntaf yn tueddu i siarad Sbaeneg â dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, heb ystyried eu bod yn medru neu'n dysgu'r Catalaneg. Enw (a slogan) yr ymgyrch oedd *Parla'm en català* ("Siaradwch efo fi mewn Catalaneg").



Ffigur 3 - Un o'r fideos yn yr ymgyrch Parla'm en català ("Siaradwch efo fi mewn Catalaneg")

- iv) Hyfforddiant a chyrsgiau. Mae'n ymddangos fod nifer o gyrsgiau a hyfforddiant ar sut i gyfathrebu yn eglur ar gael yn yr Iseldiroedd ac yng Ngwlad Belg. Nid yw'r cyrsiau yma i gyd wedi eu anelu yn benodol at siaradwyr er mwyn cyfathrebu efo dysgwyr, ond mae'r egwyddor yn berthnasol. Yng Ngwlad Belg roedd gwefannau cwmnïau yn cynnig cefnogaeth i fusnesau a llywodraethau lleol ar sut i hyfforddi staff er mwyn cyfathrebu yn glir gyda cleientiaid a chefnogi pobl i integreiddio ac 'ymddinesyddu'.



Ffigur 4 - Cwrs Klare taal spreken ("Siarad iaith glir"). Ar gael yn Antwerp, Gwlad Belg.

3. Edrych ar Gymru.

Mae rhai pethau i'w cadw mewn cof wrth feddwl am ymgyrchoedd fel yr uchod yng Nghymru e.e. nid yw pob ardal neu gymuned yr un fath o ran presenoldeb yr iaith. Nid yw amlygiad dysgwyr at y Gymraeg yr un fath ym mhob ardal. Nid yw pawb ychwaith â'r un awydd i helpu a chefnogi pobl sy'n dysgu. Yn hynny o beth edrychwyd ar bwy ydy'r gynulleidfa. Pwy sydd angen eu cyrraedd er mwyn eu haddysgu i gyfathrebu â siaradwyr newydd?

- Tiwtoriaid, gwirfoddolwyr, unigolion sy'n ymwneud â dysgwyr yn barod
- Perchnogion busnesau â staff sy'n ymwneud â'r cyhoedd
- Staff a gweithwyr o fewn sefydliadau
- Trefnwyr mewn cymdeithasau a mudiadau
- Ysgolion – athrawon a rhieni
- Pobl arferol ar y stryd

Nid yw pob un o'r rhain yr un mor hawdd i'w cyrraedd na'i haddysgu ond mae'n rhoi trawsdoriad o bwy ydy'r bobl sy'n medru helpu.

4. Argymhellion

Argymhellion a phwyntiau gweithredu ar gyfer addysgu siaradwyr iaith gyntaf yng Nghymru ar sut i gyfathrebu â dysgwyr.

- Cadarnhau beth sy'n gweithio** – 'Foreigner Talk'.
- Cynyddu amlygiad** – Cynllunio bathodynau (newydd?), posteri (e.e. safleoedd bws), fideos, cyfryngau cymdeithasol (= normaleiddio iaith).
- Cynyddu'r cyfleon i ddysgwyr a siaradwyr L1 gymysgu:** digwyddiadau lleol, partneriaethau iaith, system paru siaradwyr.
- Agor deialog efo busnesau, mudiadau a sefydliadau.**
- Trafod efo rheolwyr llinell a gweithwyr.**
- Dylunio cyrsiau a sesiynau hyfforddi** addas a gyfer gwahanol fathau o siaradwyr rhugl mewn gwahanol sefydliadau neu cyd-destunau. Cynnwys: anogaeth i gyfathrebu yn y Gymraeg, gwybodaeth am beth sy'n helpu, gwybodaeth am lefelau dysgu iaith a chaffael iaith cyffredinol.

5. Adborth Tiwtoriaid

Ar ddiwedd y cyflwyniad yn y Fforwm i diwtoriaid DCGO (Hydref 2023) gofynnwyd am adborth ar y syniadau. Dyma sylwadau ac awgrymiadau'r tiwtoriaid.

:Padlet

mrb18ytf 10/26/2023 ↻

Sylwadau neu awgrymiadau am yr hyn drafodwyd?

Nodwch unrhyw adborth, syniadau neu farn ar yr hyn a drafodwyd.

- ↻ Cynnig cyngor i ysgolion ar gyfer datblygu eu Cynllun Datblygu Ysgol i gynnwys cefnogi dysgwyr a sut i weithredu hyn
- ↻ Licio'r syniad o fathodyn 'siaradwch Gymraeg hefo fi' i ddysgwyr sy'n ddigon hyderus
- ↻ S4C wedi deud os ydy staff yn cymryd rhan yn y cynllun Siarad (siarad 10 awr efo dysgwyr) maen nhw'n cael diwrnod o wyliau. Arwain y ffordd i sefydliadau eraill?
- ↻ Creu adnodd 'cefnogi sgwrsio' ar gyfer gweithleoedd sy efo dysgwyr lle ellir ei hysbysebu yn y gweithle
- ↻ Cynnal sesiynnau i siaradwyr L1 ar sut i siarad efo dysgwyr .
- ↻ Mentrau iaith i hyrwyddo digwyddiadau sy'n digwydd gan fudiadau ayyb fel bod mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn sy' mlaen mewn un lle - galluogi dysgwyr i fynychu
- ↻ **Bathodynau Siaradwch Gymraeg efo fi! Yn syniad da.**
Mae fy nysgwyr i sy gan blant yn mynychu ysgol Gymraeg yn ymdrechu i drafod cynnydd eu plant efo'r athrawon ond yn ffeindio hyn yn anodd iawn. Gan amlaf mae'r athrawon yn troi'r saesneg.
- ↻ Cyfryngau cymdeithasol yn bwysig.
- ↻ Sicrhau fod digwyddiadau fel Eisteddfodau Urdd ar lefel Cylch a Sir ac unrhyw ddigwyddiad yn groesawgar o ran gwybodaeth i rieni sy'n ddysgwyr etc - boed yn dadlen eirfa ar raglen etc



Ffynonellau

- Bathodynau *Spreek Nederlands met mij*:
<https://www.dutchnews.nl/2017/06/spreek-nederlands-met-mij-a-week-of-eschewing-english/>
- Rhaglenni *Taalhelden*: <https://www.ringtv.be/taalhelden>
- Ymgyrch *Parla'm en català*: <https://www.cpl.cat/xarxa/cnlreus/parla/>
- 'Foreigner Talk': Jacquelyn Schachter 'Nutritional Needs of Language Learners' (1983).
- Gwefan gefnogaeth i fusnesau efo integreiddio a 'ymddinesyddu' gan lywodraeth leol (Gwlad Belg):
<https://integratie-inburgering.be/nl/wat-kunnen-we-voor-jou-doen/ondersteuning-voor-je-organisatie-of-lokaal-bestuur/taal>
- Cyrsiau siarad a chyfathrebu yn eglur (Antwerp, Gwlad Belg):
<https://www.atlas-antwerpen.be/nl/agenda>